| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **9 Medi 2008** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am ollyngiad gan aelodau o Gyngor Cymuned Llanfrothen** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

**Cefndir**

1. Atodaf, fel **Atodiad 1**, gopi o ffurflen a dderbyniwyd wrth Glerc Cyngor Cymuned Llanfrothen , yn cyflwyno cais am ollyngiad ar ran rhai o aelodau'r cyngor hwnnw.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i dynnu'r cyfyngiadau a osodir ar gynghorwyr gan y Cod Ymddygiad drwy roddi gollyngiad iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth. Mae paragraff 2 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau") yn gosod yr amgylchiadau lle y medrir rhoddi gollyngiad, ac atodir copi fel **Atodiad 2**.

3. Fel y gwelir wrth y ffurflen mae'r cais yma o dan baragraff 2(a) o'r Rheoliadau sef fod "*gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol… mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw*" , h.y. chwech allan o wyth o aelodau'r Cyngor yn yr achos hwn.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar geisiadau'r Cynghorwyr O.G. Griffith, R.V. Roberts, Rhys A. Williams, D. Watts, Myrfyn Hughes ac Emlyn Roberts am ollyngiad.